09.09.2022

CYLCHLYTHYR YSGOL DEWI SANT

CYLCHLYTHYR WYTHNOSOL I DEULUOEDD YR YSGOL
WEEKLY FAMILY NEWSLETTER

CROESO!

Croeso yn ôl i'r holl staff a disgyblion. Gobeithio eich bod wedi mwynhau y gwyliau . Croeso cynnes i'r holl staff a disgyblion newydd sy'n ymuno a ni flwyddyn yma!

Welcome back to all the staff and pupils. We hope you have had a fun-filled summer! A warm welcome to all the staff and pupils who are joining us this year!

Llongyfarchiadau i holl gyn-ddisgyblion Ysgol Dewi Sant sydd wedi derbyn canlyniadau arholiadau yn ystod yr Hâf. Fel ysgol, rydym mor falch o lwyddiannau pawb ac yn dymuno pob hwyl i bob un ohonynt yn y dyfodol.

Congratulations to all the Ysgol Dewi Sant past-pupils who received their results over the summer. As a school, we are so proud of your successes and wish all of you the best of luck in the future.

Cofiwch i dychwelyd ffurflenni casglu data i'r ysgol erbyn dydd Gwener 16.09.22, Diolch.

Remember to return the data collection forms by Friday the 16.09.22, Thank you.

CYFARFOD EIN STAFF NEWYDD

MEET OUR NEW STAFF MEMBERS

Rydym wedi croesawu Mr Harri, Miss Ellie, Mr Pritchard a Miss Roberts i'n tim yma yn Ysgol Dewi Sant eleni.

We have welcomed Mr Harri, Miss Ellie, Mr Pritchard and Miss Roberts to be part of our team here at Ysgol Dewi Sant.



Miss Ellie

Mae Miss Ellie yn gyn-ddisgybl Ysgol Dewi Sant sy'n ymuno â ni fel cymhorthydd yn y Cyfnod Sylfaen. Rydym yn falch eithriadol o bob un cyn-ddisgybl sy'n defnyddio'r Gymraeg o fewn eu gyrfaoedd. Pob hwyl i ti yma Miss Ellie.

Miss Ellie is a former pupil of Ysgol Dewi Sant who joins us as a classroom assistant in the Foundation Phase. We are exceptionally proud of every former pupil who uses the Welsh language in their careers. Good luck to you here Miss Ellie.

Mr Harri

Mae Mr Harri hefyd yn gyn-ddisgybl ac yn ymuno â ni fel cymhorthydd yn y Cyfnod Sylfaen. Mae gan Mr Harri ddiddordeb mawr mewn drama a'r celfyddydau ac yn awyddus i gynnal clybiau perfformio yma.

Mr Harri is also a former pupil and joins us as an assistant in the Foundation Phase. Mr Harri is very interested in drama and the arts and is keen to host performance clubs here.



CYFARFOD EIN STAFF NEWYDD
MEET OUR NEW STAFF MEMBERS

Miss Roberts

Mae Miss Roberts yn ymuno â ni fel athrawes yng NghA2. Bydd Miss Roberts yn addysgu ym mlwyddyn 4. Pob hwyl i chi Miss Roberts. Rydym yn edrych ymlaen i'ch cael fel rhan o'r tîm.

Miss Roberts joins us as a teacher in KS2. Miss Roberts will be teaching in Year 4. All the best Miss Roberts, we look forward to having you as a apart of the team here.





Mr Pritchard

Mae Mr Pritchard yn ymuno â ni fel athro yng NghA2. Bydd Mr Pritchard yn addysgu ym mlwyddyn 5. Mae Mr Pritchard yn edrych ymlaen i gychwyn Clwb côr a chelfyddydau perfformio yn fuan.

Mr Pritchard joins us as a teacher in KS2. Mr Pritchard will be teaching in Year 5. Mr Pritchard is looking forward to starting a choir and performing arts Club soon.

Dosbarthiadau Meithrin 2022



Nursery classes 2022



Croeso cynnes i'n dosbarthiadau Meithrin newydd eleni! Rydym yn edrych ymlaen i wylio chi'n datblygu a bod yn ran o'n teulu yma yn Ysgol Dewi Sant.

A warm welcome to our new Nursery classes this year! We are looking forward to watching you develop and being a part of the Ysgol Dewi Sant family.

Da iawn criw sioe 'Oliver' yn eu perfformiadau yn Theatr Fach Y Rhyl yn ystod y gwyliau!

Well done to the pupils who performed 'Oliver' in the Rhyl Little Theatre over the holidays!





Llongyfarchiadau i Siriol Ousey (cyn-ddisgybl) ar gael ei hethol yn brif ddisgybl, ac i Finley Mills (cyn-ddisgybl arall) ar gael ei ethol fel dirprwy prif ddisgybl. Pob hwyl i chi yn eich rolau newydd!

Congratulations to Siriol Ousey on being elected Head (past pupil) girl, and to Finley Mills (another past pupil)for becoming deputy. Good luck to the both of you in your new roles!




NODYN ATOGFFA BACH // A LITTLE REMINDER

- Mae'r drysau yn agor am 8:40yb pob bore / The doors open at 8:40am every morning.
- **Safle dim cŵn / No dogs allowed on the site.**
- Safle dim ysmygu / No smoking on site.
- System un-ffordd wrth nol plant diwedd y dydd / One way system when picking up children at the end of the day.
- Os mae'r giatiau gwyrdd ar gau ar ddiwedd y dydd - golygir hyn bod y maes parcio yn llawn / If the green gates are closed at the end of the day it means the car park is full.



AMSEROEDD GADAEL // LEAVING TIMES:

Blwyddyn / Year	Amser / Time	Drws / Door
Meithrin / Nursery	3:15 yh/pm	Drws y dosbarth / Classroom door
Derbyn / Reception	3:05 yh/pm	Derbynfa / Reception (Miss Angharad Hughes) Drws dosbarth / Class door (Mrs Ousey)
Blwyddyn 1 / Year 1	3:10 yh/pm	Neuadd / Hall
Blwyddyn 2 / Year 2	3:10 yh/pm	Drws Cefn / Back door
Blwyddyn 3 / Year 3	3:15 yh/pm	Drws Cefn / Back door
Blwyddyn 4 / Year 4	3:15 yh/pm	Drws neuadd / Hall door
Blwyddyn 5 / Year 5	3:20 yh/pm	Drws Cefn / Back door
Blwyddyn 6 / Year 6	3:20 yh/pm	Derbynfa / Reception





A ydych wedi gweld ein cysgodfan beics newydd? Croeso i'r ddisgyblion ei ddefnyddio i gadw beics yna yn ystod y dydd. Rydym yn annog i'r beicwyr ddefnyddio clo i ddiogelu eu beics os yn defnyddio'r cysgod.

Have you seen our new bike shelter? Children are welcome to leave their bikes on site during the school day. We recommend that they use a lock to secure their bikes if they are using the shelter.

Llongyfarchiadau i Miss Gweno ar enedigaeth Enlli!

Congratulations to Miss Gweno on the birth of Enlli!

Ar Ddydd Mercher y Medi 14eg bydd y disgyblion yn gwylio sioe 'GWNEWCH SŴN'. Mi fydd o'n cael ei ffrydio'n fyw gan ddefnyddio Microsoft Teams ac yn cynnwys band byw gwych. Rydym yn edrych ymlaen.

On Wednesday the 14th of September, the pupils will be watching the 'Make Some NOISE!' show. The show will be livestreamed using Microsoft teams l and features a fabulous live band. We are really looking forward.



Waliau newydd

MAE DEWI SANT WEDI CYMRYD LLE PWYSIG AR EIN WAL NEWYDD







DYMA NI YN Y RHYL



ANTHEM SY'N AGOS AT EIN CALONNAU





EIN GWERTHOEDD OUR VALUES

Yn ystod gwyliau'r haf, rydym wedi bod yn brysur yn adnewyddu ein coridorau wrth y brif fynedfa. Rydym wrth ein boddau gyda'r edrychiad gorffenedig

During the summer holidays, we have been busy refurbishing the walls by the main reception. We love thje overall finished look!

CYN-DDISGYBL YN SERENNU

YMA YN YSGOL DEWI SANT RYDYM YN FALCH EITHRIADOL O BOB DISGYBL SYDD WEDI CROESI'R TROTHWY. BYDDWN YN MANTEISIO AR GYFLEOEDD I GANOLBWYNTIO AR GYN-DDISGYBLION A FYDD YN ADRODD WRTHYM SUT Y BU'R IAITH GYMRAEG YN GYMORTH IDDYN NHW.

Non



"Heb amheuaeth byswn i ddim yn perfformio ar lwyfanau heddiw heb y gefnogaeth ac annogaeth gofalus ges i yn ystod fy mlynyddoedd cynnar yn Ysgol Dewi Sant. Roedd cerddoriaeth, perfformio a'r celfyddydau yn gyffredinol yn cymryd lle pwysig iawn yn yr ysgol tra o'n i'n ddisgybl yna. A'r peth mwyaf sbesial oedd roedd cyfle ac annogaeth i BAWB sdim ots pa gefndir, Cymraeg neu di-Gymraeg, doedd dim ots pa mor 'dalentog' neu 'llwyddianus' , roedd PAWB yn cael cyfle i deimlo'n werthfawr ymhob sioe, cyngerdd, parti Eisteddfod.

Bydd y staff, ffrindiau a'r profiadau ges i yn werthfawr iawn i mi am byth.

PAST PUPIL TAKE-OVER

HERE AT YSGOL DEWI SANT, WE ARE VERY PROUD OF EVERY SINGLE PUPIL THAT HAS PASSED THROUGH OUR DOOR.
WE WILL BE SHINING THE SPOTLIGHT ON PAST PUPILS WHO WILL TELL US HOW THE WELSH LANGUAGE HELPED THEM.

Non



"Without a doubt I wouldn't be performing on stages today, without the support and encouragement I had in my early years at Ysgol Dewi Sant. Performing and music in general was given an important place in the school whilst we were pupils there. And the most special thing was; the opportunity to perform would be given to EVERYONE, no matter what ability, Welsh or non-Welsh speaking background, no matter how 'talented' or 'successful', EVERYONE had the opportunity to participate in every show, concert, Eisteddfod party.

The staff, friends and experiences I had will stay with me forever. Thank you Ysgol Dewi Sant"

YSGOL DEWI SANT

DWY IAITH DYFODOL DISGLAIR
TWO LANGUAGES A BRIGHTER FUTURE







Noson Agored 28.09.22


Open Evening

4:00 - 6:00 yp/ pm

Noson anffurfiol i arddangos yr hyn sy'n arbennig am ein hysgol. Gwahoddiad ar agor i rieni presenol a rhieni sy'n ystyried gyrru eu plant yma yn y dyfodol.

An informal evening showcasing what our school has to offer. Invitation open to present and future parents.

Dilynwch ni
Follow us



Grŵp Plant Bach - Toddler Group

Bore Dydd Mercher/ Wednesday Morning 9.30am-11am

Ysgol Dewi Sant, Rhyl

Cyflwynir y sesiwn hon yn ddwyieithog / This Session will be delivered Bilingually



Dewch a snack a diod iach i'ch plentyn, diolch.
Please bring along a healthy snack and drink for your child.

Nicola - 07770681399

SIARADWYR CYMRAEG YR WYTHNOS



DERBYN

MISS HUGHES - CIAN

MRS OUSEY - JESSICA

BLWYDDYN 1

MRS RHYS / MRS JONES - ALYS +DYLAN

MRS DAVIES - POPPY C + EFAN C-J

BLWYDDYN 2

MRS HANKS - GRACE

MISS WOOLFORD - AYAANA



BLWYDDYN 3

MRS BRIERLEY - ELSI

MR PHILLIPS - HANNAH

BLWYDDYN 4

MRS EDWARDS - PRISEIS

MISS ROBERTS - IMOGEN + ZAYED

MISS PARRY - MICHAEL

BLWYDDYN 5

MRS CAIRNS - RUPERT

MR PRITCHARD - LONA

BLWYDDYN 6

MRS DONA WILLIAMS - ANAIS + HARVEY R

MRS FFION WILLIAMS - SAM B

